**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Small Hall, Pennard Parish Hall - Pennard Parish Hall - Small Hall**

**Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018 am 7.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| J P Curtice | L James | A H Stevens |

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| R Button | R Cooper | S Crocker |
| S Heard | S Hill | G Howe |
| M Lewis | H Osborn | B Parry |
| D Vine | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
K E Marsh

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: M C Child a/ac P R Hood-Williams
Aelodau'r Grŵp Llywio: D P Tucker

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018 fel cofnod cywir.

**22 Materion yn codi o'r cofnodion.**

- **Adroddiad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

  Gofynnodd Rod Cooper a oedd y rhestr o brosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a ariannwyd ar gael. Esboniwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

  **Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

**23 Cyflwyniad - Port Einon/Astudiaeth Dichonoldeb Horton - Bro Partnership.**

Gwnaeth Rob Owen, Bro Partnership, cyflwyniad ynglŷn ag Astudiaeth Dichonoldeb Porth Einon/Horton. Dyma'r manylion yn y cyflwyniad -

- Proses ymgynghori;
- Dyma'r prif argymhellion:
  - Gwella rheolaeth Maes Parcio Porth Einon;
  - Gwella rheoli traffig;
  - Gwella'r toiledau (opsiynau tymor hir a thymor byr);
  - Newid cynllun ffordd, gwella parcio ar gyfer pobl anabl a chynnwys nodwedd ddiwylliannol a man casglu a gollwng;
  - Newid a gwella biniau sbwriel/casgliadau;
  - Lleihau i un ardal ar gyfer cŵn yn yr haf ac ychwanegu mwy o finiau baw cŵn;
  - Gwella darpariaeth/gwasanaeth lansio cychod a gwella darpariaeth storio ar gyfer cychod/cyfarpar;
  - Gwella mynediad i'r anabl i'r traeth;
  - Symud arwyddion diangen o lan y môr/gwella arwyddion achubwyr bywyd/arwyddion gwell ar gyfer llwybr yr arfordir/gwella arwyneb llwybrau;
  - Tirweddu'r ardal o flaen y siopau ym Mhorth Einon;
  - Gwella rheolaeth y twyni, gan gynnwys mynediad a gorfodi;
  - Adeiladu canolfan newydd ym Mhorth Einon sy'n cynnig darpariaethau nad ydynt yn cystadlu â busnesau presennol;
  - Hyrwyddo gwasanaethau bws a gwella safle bws a gwybodaeth;
  - Gwella mannau parcio ceir ar gyfer yr YHA a gwella mynediad i gerddwyr;
  - Gwella mynediad at y Tŷ Halen a'r modd y'i rheolir;
  - Cydlynu a rheoli digwyddiadau mawr yn well, e.e. treiathlon;
  - Datblygu brand a marchnata eglur ar gyfer Porth Einon, yn seiliedig ar hanes morol, chwaraeon traeth a dŵr;
  - Gwella mannau parcio ceir, arwyddion a'r arwyneb yn Horton;
  - Gwella'r bloc o doiledau yn Horton neu osod rhai newydd;
  - Gwella'r dehongliad o Orsaf yr RNLI yn Horton/efallai symud y siop i ganolfan newydd ym Mhorth Einon;
  - Gwella mynediad i gerddwyr o'r maes parcio i'r traeth yn Horton/cynnal a gwella'r llwybr estyll mewn mannau;
  - Cynnig trwydded o bosib er mwyn i werthwr weithredu o'r maes parcio yn Horton;

- Sicrhau nad yw ceir yn cael eu parcio ar y llwybr rhwng Porth Einon a Horton;
- Cyflwyno ymagwedd fesul cam er mwyn cynnwys opsiynau tymor byr, tymor canolig a thymor hir;
- Gwasanaethau posib y gellid eu cyflwyno mewn canolfan newydd ym Mhorth Einon.

Gofynnod y Grŵp Llywio nifer o gwestiynau ynghylch y cyflwyniad, ac ymatebwyd iddynt yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Y ddelwedd anffafriol sy'n cael ei chyfleu gan y cynwysyddion storio ym maes parcio Porth Einon;
- Signal ffôn/gwasanaethau band eang gwael yn yr ardal;
- Y ddarpariaeth gwasanaeth bws wael i Borth Einon a Horton;
- Diffyg gwybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r ymgynghoriad, diffyg ymgynghori â'r ardaloedd cyfagos i Borth Einon, diffyg ymateb gan Gyngor Cymuned Porth Einon, y ddau ddigwyddiad ymgynghori a drefnwyd a'r brîff cyfyngedig a roddwyd gan y cyngor;
- Lleoliad daearyddol Porth Einon/Horton yn amharu ar fynediad.
- Diffyg cyfathrebu rhwng adrannau'r cyngor;
- Maint/pris posib canolfan newydd ar safle'r hen doiledau;
- Materion parcio ar y ffordd i'r YHA;
- Mynediad cyfyngedig i gerbydau mwy yn dod i mewn i Borth Einon;
- Cyngor Cymuned/Cynghorydd Ward yn cynorthwyo i wella'r ardal;
- Cydnabod yr astudiaethau tebyg sydd wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol;
- Sefydlu gweithgor/anfon sylwadau ymlaen at Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr er mwyn iddo gynnig ymateb erbyn 14 Rhagfyr 2018.

Diolchodd y cadeirydd i Rob Owen am ei gyflwyniad.

**Penderfynwyd:** -

1) Cylchredeg y cyflwyniad i'r grŵp llywio;
2) Dylid anfon sylwadau ynghylch yr astudiaeth dichonoldeb ymlaen i Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr er mwyn i ymateb gael ei anfon at Rob Owen ei ystyried ar gyfer ei adroddiad astudiaeth.

**24 Cynllun Rheoli AoHNE.**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr amlinelliad o gyd-destun, proses a gofynion adolygiad Cynllun Rheoli AoHNE.

Amlinellwyd manylion y broses adolygu a blaenoriaethau/materion a argymhellwyd ar gyfer yr adolygiad.

Ychwanegwyd bod y Cynllun Gweithredu yn y Cynllun Rheoli presennol yn cynnwys cyfnod hyd at 2018. Cytunodd Cyngor Abertawe ar fersiwn wedi'i diweddaru ar gyfer 2018-21 â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel sail cyflwyno rhaglen cymorth grant Partneriaeth AoHNE. Fel cam cyntaf, argymhellir y dylid adnewyddu ac adolygu'r cynllun gweithredu i gynnwys estyniad ar gyfer gweddill cyfnod presennol y cynllun

(hyd at 2022) a chytuno ar hyn drwy'r bartneriaeth. Argymhellir hefyd wneud 'Y Diweddaraf am y Cynllun Rheoli' yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Llywio.

**Penderfynwyd:** -

1) Adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddaru ar gyfer estyniad ar gyfer gweddill cyfnod presennol y cynllun (hyd at 2022) a chytuno ar hyn drwy'r bartneriaeth;
2) Rhoi 'Y Diweddaraf am y Cynllun Rheoli' fel eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Llywio.

**25 Cais am Wobr Gymuned Awyr Dywyll - Y Diweddaraf am y Cynnydd. (Llafar)**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru ar y cyfarfod cyntaf a drefnwyd gan Awyr Dywyll Cymru yn Neuadd Reynoldston ar 14 Tachwedd 2018. Dywedodd fod 27 o bobl yn bresennol, gan gynnwys busnesau a grwpiau diddordeb lleol, a chafwyd cyflwyniad i Awyr Dywyll, dynodi a nifer o faterion sy'n ymwneud â llygredd golau.

Ychwanegwyd y byddai digwyddiadau cynnwys y cyhoedd yn cael eu trefnu yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**26 Materion trawsffiniol AoHNE Gwyr - Safbwynt y Cyngor.**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn cyflwyno safbwynt y cyngor ynglŷn â ffiniau AoHNE Gŵyr, yng nghyd-destun datblygiad Pier y Mwmbwls.

Amlinellwyd bod yr adroddiad yn cyflwyno'r cyd-destun llawn ac yn esbonio pam mae'r cyngor yn ystyried yr 'Y Gorchymyn a Map y Gorchymyn' fel ffin gyfreithiol AoHNE Gŵyr. Y gorchymyn oedd wedi sefydlu'r sail statudol ar gyfer dynodi Gŵyr yn AoHNE; dylid ystyried map y gorchymyn fel rhan annatod o'r gorchymyn.

Ychwanegwyd bod y Gorchymyn a Map y Gorchymyn wedi eu cadarnhau gan lofnod a sêl y Gweinidog perthnasol yn dwyn dyddiad 10 Rhagfyr 1956, gyda'r newidiadau'n ymddangos mewn inc coch ar y gorchymyn a'r ardaloedd eithriedig wedi'u croeslinellu'n ddu ar fap y gorchymyn. Safbwynt y cyngor felly yw bod y gorchymyn wedi cael ei roi ar waith ar y dyddiad hwn ac felly mae'r gorchymyn a'i fap yn dangos ffiniau terfynol AoHNE Gŵyr.

Dylid ystyried unrhyw fap arall a luniwyd ers hyn fel dehongliad o'r ffin yn unig ac felly heb fod yn derfynol; mae hyn yn cynnwys copïau 1957 a gynhyrchwyd gan yr Arolwg Ordnans.

Dywedodd Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol fod effaith datblygiad Pier y Mwmbwls ar yr AoHNE yn bwysig, ni waeth a ydy'r safle y tu mewn neu'r tu allan i'r ffin.

Trafododd y grŵp yr adroddiad a'r mapiau a ddarparwyd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**27 Cronfa Datblygu Cynaliadwy.**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad diweddaru am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb gwerth £55,000 i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2018/19, gyda'r un peth ar gyfer 2019/20. Roedd eisoes 10 prosiect wedi'u cymeradwyo gyda chylllid y gronfa ar gyfer 2018/19, gyda 3 chais ychwanegol yn cael eu hystyried a disgwylir 3 chais ychwanegol.

Ychwanegwyd bod ffigur y cronfeydd sydd wedi eu neilltuo yn cynnwys ffi reoli DASA sef £5,500 (10%) ac roedd rhan helaeth o'r gronfa wedi ei neilltuo ar gyfer 2019/20 a 2020/21. Amlinellwyd y materion canlynol: -

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £ 55,000.00 |
| Cronfeydd sydd wedi eu neilltuo | £ 41,200 |
| Cronfeydd sydd heb eu neilltuo | £ 13,300 |
| Ceisiadau sy'n cael eu hystyried gan y panel | £ 10,500 |

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.55 pm

**Chair**